

PWYLLGOR PERSONÉL

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n bresennol:

Dydd Llun, 18 Tachwedd 2024

Cadeirydd: Cynghorydd A.J.Richards

Cynghorwyr: S.A.Knoyle, S.Pursey, P.D.Richards, T.Bowen, C.Lewis, J.Hale, J.Jones a/ac R.G.Jones

Aelodau di-bleidlais: Cynghorydd W.F.Griffiths, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, S.Jones, A.Llewelyn a/ac C.Phillips

Swyddogion yn bresennol: S.Rees, D.Hopkins, S.Evans, N.Daniel, L.Margetson a/ac C.Plowman

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

PENDERFYNWYD:

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2024 fel cofnod cywir.

4. **ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2023/2024**

Darparwyd gwybodaeth am gyflogaeth a chydraddoldeb i'r Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2023-2024.

Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn rhan o Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus y Cyngor a'i fod yn cynnwys yr holl ddata perthnasol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi fel rhan o'r ddyletswydd honno.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r wybodaeth am gyflogaeth a chydraddoldeb ar gyfer y flwyddyn 2023-2024, a gynhwysir yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

5. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y DDYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL**

Derbyniodd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, a baratowyd yn unol â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol fel a nodir yn Neddff Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Eglurwyd bod yn rhaid i awdurdodau lleol geisio barn gyffredinol neu gyfaddawd gyda'u Hundebau Llafur cydnabyddedig wrth bennu eu hamcanion lles a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr adroddiad a ddsbarthwyd yn nodi sut yr oedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ceisio gwneud hynny gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig. Ategwyd bod yr Undebau Llafur cydnabyddedig hynny wedi cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a ddsbarthwyd.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

6. **TREFNIADAU GWYLIAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD 2025/2026 A 2026/2027**

Darparodd swyddogion adroddiad ynghylch trefniadau agor a chau'r prif swyddfeydd dinesig yn ystod cyfnodau gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ar gyfer 2025/2026 a 2026/2027.

Nodwyd y cynhaliwyd ymgynghoriad gyda Phrif Swyddogion ac Undebau Llafur ynghylch yr opsiynau a ffefrir.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cynigion mewn perthynas â threfniadau gwyliau'r Nadolig / y Flwyddyn Newydd ar gyfer 2025/2026 a 2026/2027, a gynhwysir yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

7. **POLISI GWIRFODDOLI**

Cyflwynodd swyddogion adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i roi Polisi Gwirfoddoli newydd ar waith ar draws y Cyngor.

Eglurwyd bod datblygiad y Polisi Gwirfoddoli wedi'i nodi fel un o'r ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Gweithlu Strategol y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu Cyflawni, ar gyfer ail flwyddyn Strategaeth y Gweithlu.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cyngor eisoes wedi defnyddio gwirfoddolwyr ar draws llawer o wasanaethau, ond nid oedd fframwaith safonol ar gyfer recriwtio a rheoli'r gwirfoddolwyr hynny; byddai datblygu polisi yn helpu i sicrhau dull cyson o weithredu ac yn sicrhau y glynir at drefniadau, megis camau gwirio cyn cyflogi. Tynnodd swyddogion sylw hefyd at y manteision lles, gan fod lles gwirfoddolwyr yn gwella o ganlyniad i wirfoddoli.

Dyweddodd swyddogion y bydd y Polisi Gwirfoddoli yn creu cyfleoedd ar draws y Cyngor ac y gall y rheini nad ydynt yn gweithio i'r Cyngor, yn ogystal â gweithwyr y Cyngor, ymgymryd â nhw; byddai'n fesur arall yn yr ystod o fuddion y mae'r Cyngor yn eu darparu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch monitro a mapio effeithiau'r polisi hwn ar draws y Cyngor. Nodwyd nad oedd swyddogion yn casglu data mewn perthynas â gwirfoddolwyr ar hyn o bryd; fodd bynnag, gwneir trefniadau i fonitro cysondeb y dull gweithredu, a bydd y data perthnasol yn cael ei gasglu wrth symud ymlaen. Soniwyd bod swyddogion wedi ymgysylltu â gwasanaethau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ar hyn o bryd ac sydd, er enghraifft, wedi sicrhau bod gwasanaethau megis ysgolion yn ymwybodol o'r camau gwirio cyn cyflogi.

Gofynnodd yr Aelodau am ddealltwriaeth well o rai o fanylion manylach y polisi a'r hyn y gellid ei gyflawni. Eglurwyd y byddai'r gwasanaethau eu hunain yn llunio rhestr o gyfleoedd gwirfoddoli ac yn eu hysbysebu, gan wahodd pobl i gyflwyno eu hunain i ymgymryd â rôl benodol; cyn i aelod o staff benderfynu gwirfoddoli, dylai drafod y rôl gyda'i Reolwr Llinell i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau. Dywedodd swyddogion na fyddai rolau gwirfoddoli yn cael gwared ar gyflogaeth â thâl ac y byddent yn ategol i wasanaethau craidd y Cyngor; ni fyddai gwirfoddolwr yn ymgymryd â gwaith gweithiwr cyflogedig.

Yn ogystal â'r uchod, amlygwyd bod y Cyngor eisoes yn defnyddio llawer o wirfoddolwyr ar draws gwasanaethau megis ysgolion, parciau a theatrau; fodd bynnag, gobeithio y byddai'r polisi yn cynyddu'r cyfleoedd ac yn darparu fframwaith er mwyn gallu rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd hynny. Cadarnhaodd swyddogion ei fod yn ffordd ddefnyddiol i bobl ennill profiad a mynd ymlaen i gael swydd, neu ei fod ar gyfer y rheini sydd am helpu yn unig.

Holodd yr Aelodau am y trefniadau ymarferol o ran monitro a hyfforddi'r gwirfoddolwyr, a chyfeiriwyd at y defnydd o'r polisi hwn ar gyfer y rheini a oedd mewn perygl o golli swydd. Dywedwyd na fyddai gwirfoddolwyr yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth yn unrhyw un o'r gweithleoedd, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau plant neu oedolion; byddai swyddog cyflogedig yn gweithio ochr yn ochr â nhw bob amser. Dywedodd swyddogion, mewn amgylchiadau lle'r oedd rhywun mewn perygl o golli ei gyflogaeth, byddent yn defnyddio ffyrdd eraill i'w gefnogi i ddod o hyd i gyflogaeth amgen yn bennaf; fodd bynnag, gallai fod yn rhywbeth i'w ddefnyddio ochr yn ochr â llwybrau eraill, er enghraifft er mwyn helpu rhywun i ennill sgiliau newydd a defnyddiol.

Rhodddwyd mwy o eglurder ynghylch gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a thalu am y gwiriadau hyn. Cadarnhaodd swyddogion fod gwiriadau GDG ar gyfer gwirfoddolwyr yn rhad ac am ddim; er bod ffi weinyddol fach i brosesu'r GDG, sef tua £5 am bob gwirfoddolwr.

Cafwyd trafodaeth ynghylch mudiadau gwirfoddoli a oedd eisoes yn bodoli ar draws y Fwrdeistref Sirol; holodd yr Aelodau am yr aliniad rhwng y sefydliadau hyn a'r Polisi Gwirfoddoli. Eglurodd swyddogion fod y Polisi Gwirfoddoli yn benodol ar gyfer pobl a fyddai'n gwirfoddoli'n uniongyrchol gyda'r Cyngor ac nid trwy'r sefydliadau gwirfoddoli presennol. Nodwyd bod sefydliadau megis Cyfeillion Parc Margam yn debygol o fod â'u trefniadau eu hunain ar waith ar gyfer aelodaeth. Soniwyd y byddai sefydlu Polisi Gwirfoddoli yn rhoi mwy o bwyslais ar rôl rheolwyr gwirfoddolwyr; a sicrhau y cydymffurfir â gwiriadau recriwtio diogel, er enghraifft.

Amlygodd yr Aelodau fod rhai o'r sefydliadau gwirfoddoli allanol yn cefnogi gwasanaethau'r Cyngor ar hyn o bryd. Gofynnwyd a fyddai'r sefydliadau hyn wedi'u heithrio rhag cofrestru ar gyfer y cynllun pe bai ond yn berthnasol i'r rheini a oedd yn gwirfoddoli'n uniongyrchol gyda'r Cyngor. Eglurodd swyddogion nad oedd y Polisi Gwirfoddoli yn gynllun yr oedd yn rhaid i bobl a/neu grwpiau gofrestru ar ei gyfer - yn

hytrach roedd yn arfer safonol. Nodwyd bod sefydliadau gwirfoddoli eisoes wedi rhoi trefniadau ar waith mwy na thebyg, a oedd yn debyg i drefniadau'r Polisi Gwirfoddoli; awgrymodd swyddogion y gallent argymhell manylion y polisi i'r sefydliadau gwirfoddoli perthnasol.

Gofynnodd y Pwyllgor i sefydliadau sefydledig gael eu hysbysu am y polisi hwn er mwyn cynyddu cwmpas a chyfleoedd; a galluogi aelodau o'r sefydliadau i wirfoddoli os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo rhoi Polisi Gwirfoddoli ar waith, fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

8. GWYBODAETH AM Y GWEITHLU - CHWARTER 2

Derbyniodd yr Aelodau'r Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu - Chwarter 2 ar gyfer 2024/25.

Dywedodd swyddogion y cafwyd cynnydd yn absenoldeb salwch; wrth siarad â chydweithwyr ledled Cymru, roedd yn ymddangos bod hwn yn duedd genedlaethol yn hytrach na thuedd a oedd yn benodol i Gastell-nedd Port Talbot. Nodwyd bod y data hwn wedi'i rannu ag Uwch-dimau Rheoli ar draws y Cyngor i'w galluogi i nodi'r rhesymau dros absenoldeb salwch ar draws eu gwasanaethau, ac i sicrhau bod absenoldeb salwch yn cael ei reoli'n briodol.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

9. EMPLOYERS FOR CARERS - CYNLLUN MEINCNODI HYDERUS O OFALWYR

Hysbyswyd yr Aelodau fod Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot wedi llwyddo i gyflawni Lefel 2 Cynllun Meincnodi Hyderus o Ofalwyr *Employers for Carers* (wedi'i gyflawni).

Nodwyd bod yr Aelodau wedi cymeradwyo aelodaeth tanysgrifiad y Cyngor i *Employers for Carers* yn 2022; roedd swyddogion ar draws y Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi bod yn gweithio i roi trefniadau'r Cyngor ar waith er mwyn cefnogi gweithwyr â chanddynt gyfrifoldebau gofalu y tu allan i'r gwaith. Amlygodd swyddogion fod y

trefniadau wedi'u cyflwyno ar gyfer asesiad, ac o ganlyniad roeddent wedi cyrraedd meincnod Lefel 2 (wedi'i gyflawni). Nodwyd bod swyddogion yn bwriadu parhau i adeiladu ar y gwaith hwn.

Cyfeiriodd swyddogion at yr ystod o dystiolaeth a gyflwynwyd i'w hystyried, yr oedd peth o'r dystiolaeth hon yn cynnwys:

- Trefniadau cyfathrebu ar gyfer gweithwyr a oedd yn ofalwyr ac ymrwymiad y Cyngor i gefnogi gofalwyr yn y gweithlu.
- Gwobr Gofalwyr Cymru - Roedd Gofal Cartref wedi llwyddo i sicrhau'r wobwr cydnabyddiaeth ar gyfer Rheolwr Llinell yn y Gwobrau Wythnos Gofalwyr a drefnir gan Gofalwyr Cymru am y gefnogaeth barhaus a roddir i weithwyr. Roedd hyn yn dangos y gefnogaeth bwrsasol maent yn ei darparu.
- Cyflwyniadau i arddangos bod ystod o bobl, gan gynnwys Rheolwyr Llinell, wedi cael eu briffio i sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut i gefnogi gofalwyr yn y gweithlu.
- Arolwg staff gofalwyr er mwyn cael gwybodaeth hanfodol am ba gymorth sydd ei angen arnynt a beth arall y gallai'r Cyngor ei wneud i'w helpu.
- Ymgyrch i recriwtio Hyrwyddwyr Gofalwyr, a oedd yn gallu cyfeirio gofalwyr at lwybrau cymorth a chynyddu ymwybyddiaeth.
- Sesiynau galw heibio ar gyfer Diwrnod Hawliau Gofalwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael.
- Datblygu sianel gofalwyr *Viva Engage*, sy'n hyrwyddo hunanymwybyddiaeth a deunyddiau cymorth yn wythnosol.
- Sut roedd Employers for Carers wedi'i gynnwys yn y broses cynefino/sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd.

Amlygwyd bod y meini prawf ar gyfer meincnodi yn ymwneud yn bennaf â chynyddu ymwybyddiaeth, a sicrhau bod pobl sy'n gallu cefnogi gofalwyr yn y gweithle yn gwybod pa gymorth i'w ddarparu, a bod pobl â chyfrifoldebau gofalu yn gwybod ble i fynd pan roedd angen y cymorth hwnnw arnynt.

Gofynnodd yr Aelodau pa gamau gweithredu ychwanegol oedd eu hangen er mwyn cyrraedd y lefel nesaf. Darparodd swyddogion y rhestr ganlynol ar gyfer cyflawni Lefel 3:

- Dangos dulliau creadigol ac arloesol o gefnogi ac ymgysylltu â gofalwyr fel rhan o ddiwylliant gweithle agored a chadarnhaol.
- Cynnwys gofalwyr wrth ddatblygu polisïau/canllawiau a phrosesau i gefnogi gofalwyr yn y gweithle.

- Darparu ystod eang o wybodaeth a chymorth i ofalwyr ar bob cam o'u taith ofalu.
- Cefnogi gofalwyr ar bob cam o gyflogaeth, o recriwtio i ddychwelyd i'r gweithle, neu adael y gweithle.
- Galluogi ac annog gofalwyr i dderbyn cymorth ymarferol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad.
- Hyfforddi rheolwyr i gefnogi a chadw gofalwyr yn effeithiol.
- Cyfathrebu'n rheolaidd a hyrwyddo materion gofalu/gofalwyr trwy'r sefydliad gan gynnwys trwy reolwyr llinell.
- Hyrwyddo gofalu/gofalwyr yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys arwain trwy esiampl yn eich gweithle ac i gyflogwyr eraill neu eich cadwyn gyflenwi.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y Tîm ar eu cyflawniadau.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

10. **BIL HAWLIAU CYFLOGAETH**

Rhoddodd swyddogion wybodaeth i'r Aelodau am y Bil Hawliau Cyflogaeth newydd.

Nodwyd nad oedd y Bil mewn deddfwriaeth eto gan ei fod yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr adroddiad a ddsbarthwyd yn nodi'r newidiadau y byddai eu hangen ar draws y Cyngor o ganlyniad i roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith.

PENDERFYNWYD

Nodwyd yr adroddiad.

11. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

PENDERFYNWYD:

Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

13. **Y DIWEDDARAF AM DRAFODAETHAU CYFLOG
CENEDLAETHOL (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 15)**

Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â thrafodaethau cyflog cenedlaethol.

PENDERFYNWYD:

Nodwyd yr adroddiad.

CADEIRYDD